# SL(6)576 – Rheoliadau Safonau Marchnata Wyau Maes (Diwygio) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008 dyddiedig 23 Mehefin 2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran safonau marchnata ar gyfer wyau sy'n cael eu marchnata yng Nghymru ("Rheoliad 589/2008").

Mae Rheoliad 2 yn diwygio Atodiad 2 i Reoliad 589/2008 er mwyn dileu'r cyfyngiad ar yr amser y caniateir cyfyngu ar fynediad ieir dodwy at rediadau awyr agored a bod eu hwyau yn parhau i gael eu marchnata fel wyau maes yng Nghymru (pan fo mesurau wedi eu rhoi ar waith i ddiogelu iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid).

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff 4.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn darparu mai *"Pwrpas yr Offeryn Statudol hwn yw caniatáu i wyau maes gael eu marchnata o dan y disgrifiad hwnnw pan osodir mesurau gorfodol i gadw adar o dan do, **ni waeth am faint o amser maent yn cael eu rhwystro rhag cael mynediad at fannau awyr agored.**"*

Mae rheoliad 2(2)(a) yn nodi *"cyn "restricted", yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, mewnosoder **"temporarily"**,".*

Mae'r rheswm dros fewnosod "temporarily" yn aneglur. A allech chi egluro pam yr ystyrir bod yr ychwanegiad hwn yn angenrheidiol?

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.